Cofnodion cyfarfod 14 Mehefin 2018 a gynhaliwyd yng nghapel Bethania, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Einir Coates	
Casi Roberts	Nerys John	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Dechreuwyd y cyfarfod am 19:23; pryd yma nid oedd cworwm ond parhawyd a'r cyfarfod drwy drafod materion gwybodaeth yn unig hyd nes roedd pedwar cynghorydd yn bresennol. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iestyn Harris, Aled Emyr, Gruff John ac Eifion Williams. Mae ymddiswyddiad wedi ei dderbyn gan Mair Bebb Jones. Mae cyfnod hysbysiad seddi gwag ar y Cyngor wedi dod i ben; ni chafwyd unrhyw gais i gynnal etholiad felly gall y Cyngor nawr symud ymlaen i gyfethol. Trafodwyd mai da o beth fyddai cael stondin yng Ngŵyl y Felin ar gyfer dangos i'r pentrefwyr beth mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am a beth maent yn ei wneud. Dywedodd y Cynghorydd Nerys John y byddai yn barod i drefnu eitemau ar gyfer eu harddangos.	**NJ**
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
2.1	Nid oedd y Cynghorydd Sir yn bresennol; ond roedd wedi anfon adroddiad byr ynglŷn â'r eitemau canlynol: <u>Clybiau Ieuenctid</u> - mae arian ar gael gan y Cyngor Sir ar gyfer helpu ariannu clybiau ieuenctid hyd nes Ebrill 2019 pan fydd y gwasanaeth ar ei newydd wedd - Y Clerc i wneud ymholiadau. **<u>Safleoedd Bysiau</u>** - roedd wedi derbyn cwyn bod rhai cysgodfannau bysiau angen eu glanhau. Diolchwyd i rai oedd wedi glanhau'r safleoedd mewn cwestiwn. Y Cynghorydd John am ymweld â'r cysgodfannau ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. **<u>Toiledau</u>** - y wybodaeth ddiweddaraf yw bod y bragdy wedi penderfynu peidio symud ymlaen a'r prosiect. Dywedodd y Cadeirydd Daniel Williams ei fod ar ddeall bod prif beipen ddŵr yn bresennol o dan yr adeilad a byddai cost o oddeutu £60k i'w symud. Bydd angen trafod mater o'r toiledau yng nghyfarfod misol nesaf y Cyngor. Mae opsiynau ar gael, un ai bod y Cyngor Cymuned yn cymryd y toiledau oddi wrth y Cyngor, talu £4000 y flwyddyn i Gyngor	**CLERC NJ**

	Gwynedd i gadw'r toiledau ar agor neu eu cau. Llwybr yr arfordir - wedi agor. Lon Llwyn - wedi derbyn grant ar gyfer gwaith cynnal.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog ariannol yr adroddiad ar gyfer Mis Mai 2018. Derbyniwyd y gwariant. Cynigwyd ac eiliwyd hwy fel rhai cywir.	
4.2	Derbyniwyd adroddiad yr Archwiliwr Mewnol. Diolchwyd i Wynne Barton y Swyddog Ariannol am ei waith trylwyr.	
4.3	Nid oedd yr hyn oedd wedi ei ddatgan yn Adroddiad yr Archwiliwr yn cyd-fynd a'r dystiolaeth oedd y Swyddog Ariannol wedi ei gyflwyno. Un mater oedd yr Archwiliwr Mewnol yn cyfeirio at oedd yr honiad bod manylion asedau y Cyngor heb eu manylu'n ddigonol. Y Swyddog Ariannol am wneud ymholiadau ar gyfer cael eglurhad gan yr Archwiliwr Mewnol ac i gael arweiniad gan y Yswiriant Zurich.	**SWYDDOG ARIANNOL**
4.4	Dywedodd y Swyddog Ariannol bod pwysau mawr wedi bodoli ar gyfer cael y cyfrifon at yr Archwilwyr Allanol mewn pryd. Nid oedd wedi derbyn y cyfrifon oddi wrth y Cynghorwyr mewn da bryd er mwyn eu cyflwyno i'r Archwiliwr Mewnol a'u cael yn ôl erbyn y dyddiad penodedig. Penderfynwyd cofnodi'r anawsterau. Bydd calendr yn cael ei gyhoeddi gyda dyddiadau ar gyfer eitemau ar gyfer y flwyddyn i oresgyn anawsterau cyffelyb.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Mai a chofnodion Cyfarfod Blynyddol fel rhai cywir. Llofnodwyd i ddatgan hynny	
6.0	**NEUADD**	
6.1	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD a gynhaliwyd ar 5 Mehefin** **Amodau bwcio a defnyddio y neuadd** Bydd Iestyn yn paratoi T&C newydd Bydd Casi yn paratoi rhestr costau hurio i'w roi o flaen y Cyngor llawn yn y cyfarfod nesaf. Gwelwyd demo o'r system bwcio Neuadd newydd. Casi i yrru link o'r system i Eifion i'w brofi	

	Shirley yn defnyddio ei thablet cyfrifiadurol ei hun a'i ffon ei hun i ddelio a archebiadau i ddefnyddio y neuadd. Angen cysidro lwfans am y defnydd yma - Iestyn i edrych mewn iddo. **<u>Adolygu gwaith ar y neuadd.</u>** Archwilwyd y gwaith diweddraf sydd wedi ei orffen - Aco Drains Archwilwyd yr is lawr - mae ochor Bangor yn sychu yn dda. Proscenium Arch, Ail osod blinds ac un golau. Y gwaith yn dderbynniol. Daniel wedi gofyn wrth Dylan Owen am anfoneb i'w roi o flaen y Cyngor nesaf Disgrifwyd y gwaith sydd angen ei wneud nesaf ac sydd angen pris Lenwi craciau bach a trin hefo Kingfisher - pilasters ac o gwmpas ffenestri, a llenwi joints yn y concrid Disgwyl pris gan Dylan Owen. Gwelwyd bod un golau fluorescent yn eistedd yn annaturiol ar wal y neuadd - angen cael Dylan Owen i edruch arno ac ail osod os oes angen. Ffan yn y gegin waelod angen sylw - Shirley i siarad hefo Daniel Hughes o O&P Angen siarad hefo Peter Wray i gael pris am orychwylio y gwaith o wella diffygion sydd ar ol yn yr islawr. - Daniel i gysylltu a fo. Archwilwyd y postyn giat i'r ty drws nesaf. Mae crac ynddo ond mae yn ymddangos bod reinforcing bar o ryw fath ynddo ac nad yw mewn peryg o ddisgyn yn fuan. Daniel wedi siarad hefo'r perchennog ac am ei gyfarfod pan fydd adref nesaf - mewn tua pythefnos. **<u>Placiau cofio.</u>** Rydym wedi debyn plac cofio gan yr eglwys. Edrychwyd ar leoliadau addas i'r wahanol placiau sydd yn y neuadd.	

	Byddent yn cael ei ail leoli yn ystod yr haf. **<u>Defnydd o'r Neuadd</u>** Trafodwyd defnydd y neuadd ac bod angen ei hyrwyddo. Angen cael casgliad o luniau o bartion a digwyddiadau er mwyn ei rhoi ar y wefan a gwneud poster o ryw fath i'w leoli tu mewn a thu allan. Defnydd o'r Neuadd gan gwmniau theatr. Iestyn am siarad hefo Linda Brown. Datblygu adnoddau. Angen pris am 10 o fyrddau crwn i eistedd 8 neu 10 o bobol a 5 o fyrddau sgwar - Gruff i ymchwilio Bwriad o roi y wireless router allan ar gael drwy yr amser yn y cyntedd. Daniel i holi Sarah a Mei os oes rheswm i beidio **<u>Gwydnwch Cymunedol</u>** Eifion wedi diweddaru y cynllun Gwydnwch Cymunedol. Daniel i yrru copi electronig o'r cynllun Cymreig i Eifion. Eifion i rannu ei waith a'r cynghorwyr i gyd. Bydd angen cyfarfod arbennig i yrru hwn ymlaen. Bag mawr o dywod, bagiau bach a rhaw wedi ei leoli yn y Clwb Hwylio. .	
6.2	Rhestr costau hurio wedi ei baratoi gan Casi ac wedi ei roi o flaen y Cyngor. Derbyniwyd	
6.3	Derbyniwyd Invoice gan IM & DM Owen am y gwaith sydd wedi ei gwblhau. Y prisiau yn cyd fynd a'r Estimates. Drainage Aco-channels £480 Blinds & Light £319-20 Proscenium Arch £295 Inspection hatch £145 Sub tot £1239-20 VAT £247-84 Total £1487-04	
6.4	Goriadau Larwm Tan ychwanegol wedi eu torri i'w dosbarthu i ddefnyddwyr y Neuadd sydd hefo goriad i'r drws. Cost o £25 wedi ei dderbyn. Mae angen y goriadau ar gyfer tawelu larymau di angen. Roedd yr aelodau yn gytun i symud ymlaen i brynu'r goriadau.	**DW**

6.5	Y Cyngor wedi derbyn sylw bod sbwriel o amgylch y neuadd. Y Cadeirydd am ddod a'r mater i sylw'r glanhawraig.	**DW**
6.6	Penderfynwyd bod rhestr waith y glanhawraig i rhestru cofnodi glanhau tu fewn a tu allan i'r neuadd.	**DW**
7.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
7.1	Dywedodd y Clerc bod contract ysgrifenedig wedi dod i law oddi wrth Menter Fachwen. Bydd gwaith i'r potiau planhigion/blodau yn costio £100 ar bob achlysur. Dim ond tri achlysur bydd mewn blwyddyn. Dywedodd y Clerc Hefyd bod anhawster wedi codi pan wnaethpwyd y potiau tro diwethaf oherwydd nid oedd dwr ar gael o Neuadd yr Eglwys fel sydd yn ôl yr arfer. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Iestyn Harris os byddai Modd i ddefnyddio ei dap dwr allanol ef. Y Clerc i ofyn i'r Cynghorydd.	**CLERC**
8.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
8.1	C18/0393/20/LL - Lleoli 4 uned llety gwyliau tymhorol ar ffurf cwt bugail ynghyd a cwt cawod - Fferm Plas Llanfair, Ffordd Caernarfon, Y Felinheli, LL55 1TT - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
8.2	C18/0400/20/LL - codi modurdy newydd ynghyd a gwaith a cysylltiedig gan gynnwys codi ffens, wal gynnal ac ail proffilio'r tir - Four crossess, Y Felinheli LL56 4JR. - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
8.3	C18/0415/20/LL - estyniad un llawr yng nghefn yr eiddo - 4 Bryn y Waen, Y Felinheli LL56 4QL. - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
8.4	C18/0469/20/LL- Estyniad uwchben y gegin bresennol - 81 Y Wern, Y Felinheli LL56 4TZ - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
9.0	**ADRODDIAD Y FYNWENT**	
9.1	Dywedwyd bod y gwair o fewn y fynwent wedi tyfu ond nid oedd y Contractwr Torri Gwair dim yno hyd nes yr wythnos nesaf. Oherwydd bod Sul y Tadau'r penwythnos hwn gofynnwyd i'r Clerc ofyn i'r Contractwr ddod a'r toriad ymlaen.	**CLERC**
9.2	Hefyd cofnodwyd bod y biniau compost yn llawn. Arwydd i'w godi bod modd rhoi gwair yn y biniau Cyngor Gwynedd.	**CR**
10.0	**ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
10.1	Mae'r lafant wedi ei dderbyn. Trefnwyd bod y lafant yn cael ei blannu nos Fawrth. Cofnodwyd hefyd os bydd y lafant yn methu	

	yna elai bod yn amser i blannu grug.	
10.2	Nid oedd gwybodaeth wedi ei dderbyn i gadarnhau bod gwaith ar y tirlithriad ar y Lon Las wedi ei gwblhau.	
11.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
11.1	Adroddwyd bod gwaith ar y llwybrau bron a gorffen.	
11.2	Mae llwybr yr arfordir bellach wedi agor. Trafodwyd a phenderfynwyd trefnu achlysur i gerdded y llwybr a chael picnic. Y Cynghorydd Nerys John i drefnu posteri.	**NJ**
12.0	**ADRODDIAD PRIFFYRDD**	
12.1	Toriad gwair wedi bod. Y Cadeirydd am gysylltu â'r Cynghorydd Eifion Williams ar gyfer cael gwybod beth sydd wedi ei drefnu ar gyfer y toriad nesaf. Bydd toriad ar gyfer Gŵyl y Felin.	**DW**
13.0	**PROSIECTAU**	
13.1	Digwyddiad codi sbwriel wedi digwydd dros y penwythnos diwethaf. Mawr ddiolch i'r Cynghorwyr Sarah Riley a Casi Roberts (??? Rhywun arall ????) fu yn trefnu ac i aelodau y cyhoedd yn cynnwys plant a fu yn codi y sbwriel. Mae gwaith o godi sbwriel yn mynd yn ei flaen. Dywedwyd bod rhai o'r picyrs wedi torri. Penderfynwyd bod £100 ar gael i brynu offer newydd.	**NJ**
13.2	Mae gwaith plannu wedi ei wneud gan drigolion Glan y Môr. Cofnodwyd gwerthfawrogiad y Cyngor i'r trigolion rheiny a diolch iddynt am eu gwaith; mae angen fwy o flodau ynn enwedig y gwch ochr Gaernarfon.	**NJ**
13.3	Mae sylw wedi ei wneud i gylwr feinciau sydd a'r Lan y Môr, dywedodd y Cynghorydd Einir Coates y byddai hi yn ymwled i gadarnhau.	**EC**
13.4	Dywedyd bod bin o fewn y cae chwarae yn cael i dorri gan wylanod y môr ac o ganlyniad gadael llanast difrifol, y Clerc i wneud cais am fin na fedr y gwylanod mynd i fewn iddo	
14.0	**TOILEDAU CYHOEDDUS**	
	Gweler eitem 2.0.	**GG**
15.0	**GWYDNWCH CYMUNEDOL**	
15.1	Mae gwaith yn parhau ar y mater hwn a bydd y cynllun drafft yn cael ei ddiweddaru gan y Cynghorydd Eifion Williams. Bydd cyfeiriad at y Cynllun i'w weld ar stondin y Cyngor yng Ngŵyl y Felin.	
15.2	Rhoddwyd fel gwybodaeth gyflwyniad o'r gwaith atal llifogydd ar Ffordd Glan y Môr.	

	Bydd dyddiad arddangos y cynllun yn cael ei hysbysu yng Ngŵyl y Felin sef Gorffennaf y 9fed yn y Felin sgwrsio.	
16.0	**GWEFAN**	
16.1	Mae scribe bellach yn weithredol ar gyfer ei weithredu ar brawf er mwyn gweld os oes unrhyw bryderon neu broblemau cysylltiedig ag ef.	**CLERC**
16.2	Amodau Hurio wedi eu paratoi gan y Cynghorydd Casi Roberts – gweler atodiad 1	
17.0	**MATERION AMRYWIOL**	
17.1	Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd - Y Cadeirydd am edrych ar y ddogfen er mwyn gweld sut mae yn effeithio'r pentref, bydd yn adrodd ymlaen at y Clerc os bydd angen ymateb i Gyngor Gwynedd.	**DW**
17.2	Deddf Gwarchod Data - y Clerc i wneud ymholiadau ar gyfer cyfieithiad y dogfennau.	**CLERC**
17.3	Seddi Gwag - i'w hysbysebu yn stondin y Cyngor yng Ngŵyl y Felin.	**CLERC**
17.4	Diolch gan CP Y Felinheli - derbyniwyd llythyr o ddiolch gan y clwb ynghyd a gwahoddiad i fynychu noson wobrwyo.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21.00	
Llofnod:		**Dyddiad:**